
Adroddiad Blynyddol

2021-22

Awst 2022

Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

Mae Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd yn gwneud penderfyniadau annibynnol ar y tâl a'r cymorth uniongyrchol a roddir i Aelodau'r Senedd er mwyn denu ystod eang o ymgeiswyr galluog ac amrywiol ac i alluogi'r rhai a gaiff eu hethol yn Aelodau i gyflawni eu swyddi yn effeithiol, gan sicrhau gwerth am arian i bobl Cymru. Sefydlwyd y Bwrdd gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010.

Aelodau'r Bwrdd

- Dr Elizabeth Haywood (Cadeirydd)
- Mike Redhouse
- Y Fonesig Jane Roberts
- Hugh Widdis
- Syr David Hanson

Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd

- Huw Gapper, Clerc
- Ruth Hatton, Dirprwy Glerc

Mae copïau o'r Penderfyniad hwn hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch gan gynnwys Braille, print bras, sain neu gopi caled gan:

Clerc Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **Taliadau@Senedd.Cymru**

Adroddiad Blynyddol

2021-22

Awst 2022

Cynnwys

Cyflwyniad.....	6
Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd.....	8
1.1 Sefydlu a Phenodi.....	8
1.2 Swyddogaethau ac Amcanion	8
1.3 Egwyddorion	9
1.4 Methodoleg.....	10
1.5 Ymgynghori a chasglu tystiolaeth	10
Gwaith y Bwrdd yn 2021-22.....	12
2.1 Adolygu Penderfyniadau	12
2.2 Strategaeth ar gyfer 2021-26.....	12
2.3 Cymorth i'r Aelodau yn y Chweched Senedd.....	13
2.4 Adolygiad Blynyddol o'r Penderfyniad	14
2.5 Ymateb i COVID-19.....	15
2.6 Y Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu	15
2.7 Diogelwch.....	16
2.8 Pensiynau	17
2.9 Ystyried taliadau eithriadol	17
2.10 Amgylchedd gwleidyddol	17
2.11 Datgarboneiddio	18
Atodiad A: Aelodau'r Bwrdd	19
Atodiad B: Dadansoddiad o gostau'r Bwrdd ar gyfer 2021-22	23
Atodiad C: Prosiectau'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu 2021-22	26

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 - cyfnod diddorol a heriol i bawb, gan cynnwys y Bwrdd. Parhaodd pandemig COVID-19 i ddominyddu'r penawdau a thrawsnewid ein ffordd o fyw a gweithio, gan gynnwys Aelodau o'r Senedd a'u staff. Oherwydd y cyfyngiadau a oedd ar waith, nid oedd y Bwrdd fel y mae ar hyn o bryd yn gallu cyfarfod wyneb yn wyneb tan ddiwedd y cyfnod adolygu.

Daeth tuedd ar i fyny i'r amlwg mewn chwyddiant a chostau byw wrth i economi'r DU dyfu ar gyfradd lawer mwy cyson, gan olygu llai o arian mewn pocedi a rheolaeth gadarn ar bwrs y wlad. Dyma'r cyd-destun yr oedd y Bwrdd yn gweithredu ynddo bryd hynny ac mae'n parhau i weithio ynddo heddiw.

Rhaid i Aelodau o'r Senedd a'u staff gael eu talu'n deg a rhaid i'r lwfansau sydd ar gael iddynt adlewyrchu'r gwaith pwysig y maent yn ei wneud a'u galluogi i weithio'n effeithiol. Yn 2021-22 cytunodd y Bwrdd ar newidiadau i gefnogi cyflogau a phensiynau staff ar gyfer 2022-23 sy'n adlewyrchu'r gwerth mawr a roddwyd arnynt o ran gweithrediad effeithiol y Senedd. Ar yr un pryd, wrth benderfynu ar gyflog a lwfansau Aelodau, mae'n rhaid i'r Bwrdd fod yn ymwybodol o'r hinsawdd economaidd a sicrhau gwerth am arian i drethdalwr Cymru. Gall fod yn heriol sicrhau'r cydbwysedd hwn, ond mae angen i ni ei sicrhau.

Roedd 2021-22 yn flwyddyn cyffrous iawn. Daeth carfan sylweddol o Aelodau newydd yn sgil etholiad y Senedd ym mis Mai 2021. Ffurfiwyd cyfluniad gwleidyddol newydd o fewn y Senedd - Cytundeb Cydweithio rhwng Llafur a Phlaid Cymru, ac mae'r canlyniadau gweithredol yn parhau i ddod i'r amlwg. Mae'r ffordd y dylai cyflogau a lwfansau'r Aelodau esblygu i gefnogi a darparu ar gyfer newidiadau o'r fath yn ffocws allweddol i'r Bwrdd wrth symud ymlaen. Nid yw gwaith y Bwrdd yn aros yn llonydd.

Yn ystod y cyfnod hwn o newid sylweddol, gan gynnwys y newid i fwy o weithio gartref a gweithio hybrid, mae'r Bwrdd wedi ceisio ymgysylltu'n rheolaidd ag Aelodau a'u staff a gwrando ar eu barn. Gan ystyried sylwadau a wnaed gan Aelodau a'u staff, mae'r Bwrdd wedi cymryd camau ychwanegol i amddiffyn diogelwch Aelodau yn y gwaith ac yn y cartref, ac i gefnogi eu staff i allu gweithio'n ddiogel ac yn effeithiol yn eu man gwaith. Mae'n hanfodol bod y Bwrdd yn gwrando er mwyn sicrhau Penderfyniad sy'n bodloni gofynion Aelodau ac sy'n darparu ar gyfer gwaith Seneddol ac etholaethol effeithiol. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Aelodau a'u staff am

weithio'n gadarnhaol gyda'r Bwrdd yn ystod 2021-22 ac edrychaf ymlaen at gydweithio parhaus yn y blynyddoedd i ddod.

Mae newidiadau mawr o'n blaenau. Rhaid i lwfansau adlewyrchu a darparu ar gyfer y ffyrdd newydd o weithio sydd wedi deillio o'r pandemig a diwygio posibl i'r Senedd gan gynnwys cynnydd yn nifer yr Aelodau, ac mae'n rhaid cyflawni hyn yn erbyn cefndir o ansicrwydd economaidd parhaus. Bydd cydweithio agos rhwng y Bwrdd, Aelodau, eu staff, Comisiwn y Senedd a chyrrff eraill y Senedd yn allweddol i sicrhau bod y Penderfyniad yn parhau'n addas i'r diben yng nghyd-destun newid mor sylweddol. Gyda hyn mewn golwg, bydd y Bwrdd yn parhau i ddatblygu ei fodd o ymgysylltu a sicrhau bod ei benderfyniadau'n cael eu llywio gan y dystiolaeth a ddarperir gan bersonau o'r fath a'u barn.

Yn olaf, hoffwn gydnabod gwaith caled fy nghyd-aelodau ar y Bwrdd wrth ymateb i'r heriau a brofwyd yn ystod 2021-22, gan gynnwys Ronnie Alexander a wasanaethodd y Bwrdd yn ddiwyd tan fis Mehefin 2021. Edrychaf ymlaen at wynebu'r heriau sydd o'm blaen gyda'm cydweithwyr dibynadwy ar y Bwrdd.



Dr Elizabeth Haywood

Cadeirydd, Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

Mae'r bennod hon yn disgrifio swyddogaethau'r Bwrdd, ei gylch gwaith a'i ffyrdd o weithio.

1.1 Sefydlu a Phenodi

- 1.1.1 **Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd** yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am bennu tâl a lwfansau yr Aelodau a'u staff. Cafodd y Bwrdd ei sefydlu gan **Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010** (y Mesur), a dderbyniodd Gymeradwyaeth Frenhinol ym mis Gorffennaf 2010.
- 1.1.2 Penodir y Bwrdd gan Gomisiwn y Senedd drwy broses penodiadau cyhoeddus.
- 1.1.3 Penodir aelodau'r Bwrdd am gyfnod penodol o bum mlynedd, ac ni chânt wasanaethu am fwy na dau dymor. Ymddiswyddodd Ronnie Alexander, a oedd yn gwasanaethu ei ail dymor gyda'r Bwrdd, ym mis Mehefin 2021, oherwydd cafodd ei benodi i Fwrdd arall. Felly, cynhaliwyd proses penodiadau cyhoeddus i benodi aelod newydd ar gyfer y Bwrdd.
- 1.1.4 Ym mis Awst 2021, cymeradwyodd Comisiwn y Senedd benodiad Syr David Hanson i'r Bwrdd yn ffurfiol. Mae ei fywgraffiad a rhai'r Cadeirydd a holl aelodau'r Bwrdd sy'n gwasanaethu wedi'u cynnwys yn Atodiad A.

1.2 Swyddogaethau ac Amcanion

- 1.2.1 Swyddogaethau'r Bwrdd yw penderfynu ar lefel cyflog a lwfansau yr Aelodau a'r system o gymorth ariannol sy'n eu galluogi i gyflawni eu dyletswyddau yn y Senedd. Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb statudol i sicrhau uniondeb, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder o ran gwario arian cyhoeddus.
- 1.2.2 Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae **adran 3** o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd adolygu'r ffordd y gweithredir ei benderfyniadau a'i effeithiolrwydd yn barhaus, gan ystyried yn benodol y profiad y mae'r Bwrdd yn ei feithrin wrth roi ei benderfyniadau ar waith, unrhyw newidiadau i swyddogaethau Aelodau, ac unrhyw amgylchiadau eraill yr ystyrir eu bod yn berthnasol.

- 1.2.3 Er ei fod yn annibynnol ar y Senedd, ac nad yw'n ddarostyngedig i gyfarwyddyd na rheolaeth y Senedd na Chomisiwn y Senedd, mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd ymgynghori â'r rhai y mae ei benderfyniadau yn debygol o effeithio arnynt. Mae hyn yn cynnwys Aelodau, staff a gyflogir gan Aelodau neu gan grwpiau o Aelodau, undebau llafur perthnasol ac unrhyw bersonau eraill y mae'r Bwrdd o'r farn eu bod yn briodol.
- 1.2.4 Yn unol â'r Mesur, mae'r Bwrdd yn cyfarfod yn breifat, ac yn ystod y pandemig cyfarfu'n rhithwir yn bennaf oherwydd y rheoliadau iechyd cyhoeddus, yr angen i arbed costau a lleihau ei ôl troed carbon. Mae'r Bwrdd yn gweithredu mewn modd agored a thryloyw drwy gyhoeddi gwybodaeth ar ei **wefan** er mwyn i'r cyhoedd gael gwybod am ei weithgareddau. Mae agenda a chofnodion pob un o gyfarfodydd ffurfiol y Bwrdd ar gael ar **wefan y Bwrdd**.
- 1.2.5 At hynny, mae **adran 11** o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd osod gerbron y Senedd adroddiad blynyddol am ei weithgareddau, gan gynnwys yr adnoddau a ddefnyddir ganddo, yn ystod pob blwyddyn ariannol. Caiff costau'r Bwrdd a'r treuliau a hawliwyd gan yr Aelodau eu cyhoeddi yn Atodiad B.

1.3 Egwyddorion

- 1.3.1 Mae cyfres o egwyddorion a ddiffiniwyd yn glir yn sail i waith y Bwrdd:
- dylai'r cymorth ariannol a'r taliadau i'r Aelodau gefnogi diben strategol y Senedd a hwyluso gwaith ei Aelodau;
 - mae'n rhaid i benderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru;
 - rhaid i'r system cymorth ariannol i'r Aelodau fod yn gadarn, yn glir, yn dryloyw, yn gynaliadwy, yn gynhwysol, a rhaid iddi gynnig gwerth am arian i drethdalwyr.
- 1.3.2 Yn 2022, datblygodd y Bwrdd set o egwyddorion ac amcanion llywodraethu cyn cyhoeddi ei **strategaeth** ar gyfer cyflawni ei waith yn ystod y Chweched Senedd.

1.4 Methodoleg

- 1.4.1** Mae'r darpariaethau ar gyflogau a lwfansau a nodir yn y Penderfyniad yn seiliedig ar ymgysylltu rheolaidd â rhanddeiliaid i gasglu tystiolaeth ynghylch gofynion y Senedd a'i Haelodau er mwyn gweithredu'n effeithiol.
- 1.4.2** Mae'r Bwrdd hefyd yn cynnal ac yn comisiynu ymchwil er mwyn casglu tystiolaeth i helpu i lywio ei benderfyniadau, er enghraifft ar gymariaethau â'r cyflog a'r lwfansau sydd ar gael i Aelodau seneddau eraill a'u staff. Roedd aelodau'r Bwrdd a'r ysgrifenyddiaeth hefyd yn bresennol yn Fforwm y Rheoleiddwyr Seneddol Rhyngwladol 2021, a gynhaliwyd ar-lein ym mis Medi 2021 ac maent yn cadw mewn cysylltiad agos â deddfwrfeydd eraill y DU i gymharu a chyferbynnu lwfansau a phenderfyniadau.
- 1.4.3** Mae'r Bwrdd yn cael cymorth clericio ac ymchwil, cyngor cyfreithiol a chynghor arall, a chymorth gweinyddol gan staff Comisiwn y Senedd (yn unol ag adran 9 o'r Mesur). Darperir y cymorth hwn fel rhan o ddyletswyddau cyffredinol staff y Comisiwn, ac nid yw felly'n arwain at unrhyw gostau ychwanegol i'r Bwrdd.

1.5 Ymgynghori a chasglu tystiolaeth

- 1.5.1** Ym mhob rhan o'i waith, mae'r Bwrdd yn mynd ati i geisio tystiolaeth i lywio ei benderfyniadau drwy ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid, gan gynnwys Aelodau a'u staff cymorth. Mae hyn yn rhan allweddol o ddull y Bwrdd o ymdrin â'i waith.
- 1.5.2** Mae'r Bwrdd wedi cynnal sawl cyfarfod ymgysylltu rhithwir gydag Aelodau a'u swyddfeydd i ddysgu am y defnydd o lwfansau.
- 1.5.3** Yn dilyn etholiad Senedd 2021, cynhaliodd y Bwrdd gyfarfodydd rhithwir gydag Aelodau nad oeddent wedi sefyll i gael ei hail-ethol ac Aelodau a etholwyd am y tro cyntaf. Gwnaeth y cyfarfodydd hyn wella dealltwriaeth y Bwrdd o brofiad yr Aelodau wrth iddynt roi'r gorau i fod yn Aelod neu golli eu sedd, a chawsom fewnwelediadau i'r heriau o ymgymryd â'u rôl newydd yn dilyn hynny.
- 1.5.4** Cynhaliodd Cadeirydd y Bwrdd gyfarfodydd rheolaidd ac ymgysylltodd â Swyddog Cyfrifyddu'r Senedd, er enghraifft i drafod meysydd y gallai fod angen eu hegluro yn y Penderfyniad a hefyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y Rheolau a Chanllawiau diwygiedig ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd.

- 1.5.5** Cynhaliodd y Bwrdd chwe chyfarfod gyda grwpiau cynrychiadol ar ran yr Aelodau a staff cymorth, lle mae unigolion enwebedig o bob grŵp plaid wleidyddol yn cynrychioli barn Aelodau a staff cymorth ar faterion sy'n berthnasol i waith y Bwrdd.

Gwaith y Bwrdd yn 2021-22

Mae'r bennod hon yn disgrifio gwaith y Bwrdd dros y flwyddyn ariannol flaenorol ac yn egluro'r newidiadau y mae'r Bwrdd wedi eu gwneud i'r Penderfyniad yn ystod y cyfnod hwn.

2.1 Adolygu Penderfyniadau

- 2.1.1 Yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22, bu effaith sylweddol ar waith y Bwrdd yn sgil pandemig COVID-19, y cynnydd yng nghostau byw o ganlyniad i ddigwyddiadau'r byd, a'r Cytundeb Cydweithio a wnaed rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru. Arweiniodd y datblygiadau hyn at gynydd yn llwyth gwaith y Bwrdd gan gynnwys dau gyfarfod eithriadol ychwanegol ac ymgysylltu ychwanegol â'r Aelodau.
- 2.1.2 Mae'n ofynnol i'r Bwrdd adolygu'r Penderfyniad fel ei fod yn parhau i:
- sicrhau bod lefel y taliadau y mae'r Aelodau yn eu cael yn adlewyrchu cymhlethdod a phwysigrwydd eu rôl fel Aelodau, ac nad yw'n rhwystro unrhyw un rhag ceisio cael ei ethol i'r Senedd;
 - darparu'r adnoddau sydd eu hangen ar Aelodau i gyflawni eu rolau; a
 - sicrhau uniondeb, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder o ran gwario arian cyhoeddus.
- 2.1.3 Yn ystod y flwyddyn ariannol cyfarfu'r Bwrdd wyth gwaith, gan gynnwys y ddau gyfarfod eithriadol ychwanegol, er mwyn adolygu ei Benderfyniad ynghylch nifer o feysydd a nodir isod ac i gynllunio ei waith.

2.2 Strategaeth ar gyfer 2021-26

- 2.2.1 Ym mis Gorffennaf 2021, cynhaliodd y Bwrdd gyfres o drafodaethau yn canolbwyntio ar ddatblygu ei nodau strategol ar gyfer gweddill ei gyfnod o wasanaeth. Yn ei gyfarfod ym mis Medi, adolygodd y Bwrdd ei ganfyddiadau ac ym mis Tachwedd cytunodd ar ei **strategaeth** derfynol, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â chrynodeb "**Bwrdd ar dudalen**".

- 2.2.2** Ym mis Mawrth 2022, trafododd y Bwrdd ei flaenraglen waith strategol am weddill ei gyfnod o wasanaeth, a chytunodd y byddai angen iddo ymgymryd yn raddol â dwy ffrwd waith gyfochrog.
- 2.2.3** Bydd y ffrwd waith gyntaf yn canolbwyntio ar wneud newidiadau i'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd mewn ymateb i anghenion yr Aelodau. Bydd hyn yn cynnwys yr holl fusnes arferol a'r holl ymrwymadau presennol, gan gynnwys adolygu goblygiadau'r Cytundeb Cydweithio yn nhymor yr hydref 2022. Yn ogystal, nododd y Bwrdd ddau faes blaenoriaeth ychwanegol ar gyfer cynnal adolygiad thematig - ffyrdd newydd o weithio ac adolygu'r lwfans staff cymorth, gan gynnwys natur y rôl a'r strwythurau cyflog a graddio.
- 2.2.4** Bydd yr ail ffrwd waith a wneir yn raddol yn canolbwyntio ar baratoi'r Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd. Wrth inni gael mwy o eglurder ynghylch y penderfyniadau ar Ddiwygio'r Senedd, bydd y Bwrdd yn pwysu a mesur y materion dan sylw ac yn penderfynu ar raddfa'r newid sydd ei angen a'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer cynnal adolygiad thematig. Cyn hynny, bydd y Bwrdd yn ceisio gwneud gwaith ymchwil paratoadol.

2.3 Cymorth i'r Aelodau yn y Chweched Senedd

- 2.3.1** Cafodd y Bwrdd wybodaeth am ganlyniad yr etholiad a'r deiliaid swyddi allweddol a benodwyd yn ei gyfarfod ym mis Mai 2021. Bu hefyd yn ystyried materion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn deillio o'r etholiad, sy'n bwysig i'r Bwrdd wrth iddo ystyried yr hyn y gall ei wneud, o fewn ei gylch gorchwyl, i leihau rhwystrau posibl a allai atal rhai rhag sefyll mewn etholiad.
- 2.3.2** Penderfynodd y Bwrdd hefyd ynglŷn â thâl Cadeirydd y Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2021. Ar ôl sefydlu pwyllgorau ar gyfer y Chweched Senedd ac ethol Cadeiryddion wedi hynny ddiwedd mis Mehefin 2021, bu'r Bwrdd yn ystyried y gyfradd cyflog deiliad swydd ychwanegol sy'n daladwy i Gadeiryddion Pwyllgorau ar gyfer y tymor Senedd hwn. Mae'r Penderfyniad yn darparu ar gyfer dwy gyfradd, cyfradd uwch ar £13,741, a chyfradd is ar £9,154. Penderfynodd y Bwrdd, o ystyried cylch gorchwyl a chyfrifoldebau Cadeiryddion Pwyllgorau, a phwysigrwydd rôl holl bwyllgorau'r Senedd yn y gwaith o ddwyn y Llywodraeth i gyfrif a chyflawni swyddogaethau'r Senedd, penderfynodd y Bwrdd y bydd yr holl gadeiryddion a gaiff eu hethol ar 29 Mehefin yn gallu hawlio'r gyfradd uwch.

- 2.3.3 Cafodd penderfyniad y Bwrdd ar gyfer y Chweched Senedd ei ddiwygio ar ddiwedd 2021-22 i roi cyfrif am effaith COVID-19. Mae'r Bwrdd wedi bod yn ofalus i fonitro unrhyw ganlyniadau anfwriadol o ganlyniad i'w benderfyniadau lle gwnaed newidiadau i'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd, drwy ei ymgysylltiad ag Aelodau. Cafodd y Bwrdd adborth ar newidiadau i'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr ac ystyriodd lythyr gan y Swyddog Cyfrifyddu yn gofyn am eglurhad o ddarpariaethau newydd y Bwrdd mewn cyfarfod ychwanegol ym mis Tachwedd. Bu'r Bwrdd hefyd yn myfyrio ar yr adborth gan yr Aelodau a grwpiau pan ystyriodd ei gynigion ar gyfer yr adolygiad blynyddol o'r Penderfyniad.

2.4 Adolygiad Blynyddol o'r Penderfyniad

- 2.4.1 Caiff y Penderfyniad ei adolygu yn flynyddol er mwyn sicrhau bod y lwfansau'n parhau i fod yn berthnasol ac yn briodol i hinsawdd economaidd y dydd. Datblygwyd cynigion ar gyfer yr adolygiad yn ystod tymor yr hydref 2021 a chynhaliwyd proses ymgynghori ar y cynigion hynny rhwng 7 Ionawr 2022 a 17 Chwefror 2022.
- 2.4.2 Croesawodd y Bwrdd y lefel uchel o ymgysylltu yn ei ymgynghoriad gan y grwpiau a'r unigolion. Bydd nifer o'r pwyntiau a godwyd yn cael eu hystyried yn ein hadolygiadau thematig sydd i ddod. Un ddadl a gyflwynwyd gan Aelodau cyn yr ymgynghoriad yw bod cost rhentu swyddfeydd wedi cynyddu dros amser i'r graddau nad yw'r lwfans perthnasol, sef y Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr, yn ddigonol mwyach. Yn sgil hynny, ac er mwyn helpu i lywio ei benderfyniadau terfynol ar newidiadau o ran y lwfans hwn, comisiynodd y Bwrdd gwmni annibynnol o syrfeyr siartredig i wneud ymchwil ar newidiadau i gostau rhentu swyddfeydd yng Nghymru ers dechrau'r Bumed Senedd (2016).
- 2.4.3 Yn ei gyfarfod ar 10 Mawrth 2022 penderfynodd y Bwrdd ar nifer o newidiadau i'r Penderfyniad, ac amlinellwyd y rhesymeg dros hynny yn yr **adroddiad** a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Penderfyniad (gan gynnwys yr ymchwil annibynnol ar gostau rhentu swyddfeydd). Roedd y penderfyniadau hyn yn adlewyrchu'r newid mewn amgylchiadau ariannol ac amodau economaidd yng Nghymru, yn rhannol oherwydd effaith COVID-19 a'r rhyfel yn Wcráin. Ymrwymodd y Bwrdd i fonitro'r sefyllfa yn ystod y cyfnod ansicr hwn.

2.5 Ymateb i COVID-19

- 2.5.1 Ymrwymodd y Bwrdd i roi'r gefnogaeth angenrheidiol i Aelodau a'u staff cymorth yn ystod pandemig COVID-19, i sicrhau eu bod yn gallu parhau â'u gwaith pwysig yn ystod yr adeg heriol hon.
- 2.5.2 Ymrwymodd y Bwrdd i adolygu'r sefyllfa'n barhaus er mwyn deall sut yr oedd y pandemig yn effeithio ar arferion gwaith yr Aelodau a'u swyddfeydd.
- 2.5.3 Mae cronfa lwfans gweithio gartref, a sefydlwyd ym mis Ebrill 2020, wedi parhau i gynorthwyo gyda chostau gweithio gartref gan staff cymorth sy'n gweithio gartref o ganlyniad i bandemig COVID-19. Caiff yr Aelodau hawlio hyd at £6 yr wythnos (neu hyd at £26 y mis ar gyfer staff a delir yn fisol) fesul aelod o staff cymorth (yn unol â chyfraddau Cyllid a Thollau EM a ganiateir ar gyfer gweithio gartref). Mae'r taliad hwn i staff yn ddi-dreth. Mae'r gronfa yn parhau i fod ar waith i gefnogi staff sy'n gweithio gartref fel sy'n ofynnol gan eu cyflogwyr.
- 2.5.4 Hefyd, mae'r Bwrdd wedi parhau i gefnogi'r Aelodau a staff cymorth drwy'r Gronfa Dychwelyd i Swyddfeydd yn dilyn COVID-19, i ariannu mesurau iechyd a diogelwch rhesymol sydd eu hangen i ddiogelu rhag lledaenu'r feirws mewn swyddfeydd etholaethol/rhanbarthol.
- 2.5.5 Bydd y Bwrdd yn trafod y mesurau hyn wrth iddo asesu ffyrdd newydd o weithio o ganlyniad i brofiad pandemig COVID-19.

2.6 Y Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu

- 2.6.1 Yn ei adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23, cytunodd y Bwrdd i'r lwfans blynyddol o £2,500 sydd ar gael i'r Aelodau gynnal gwaith polisi, ymchwil a chyfathrebu gael ei drosglwyddo i'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr, fel rhan o nod parhaus y Bwrdd o symleiddio ac i roi mwy o hyblygrwydd i'r Aelodau ar eu defnydd hwy o'r lwfansau hyn. Cytunodd y Bwrdd ymhellach i ddileu'r cyfyngiad ar ddefnyddio'r lwfans Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu o fewn pedwar mis i etholiad cyffredinol arferol y Senedd, ar y sail bod digon o fesurau diogelu yn y Penderfyniad a **Rheolau a Chanllawiau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd Swyddog Cyfrifyddu Comisiwn y Senedd** i gyfyngu ar unrhyw ddefnydd o gyllid at ddibenion plaid wleidyddol.

- 2.6.2** Yn yr **adroddiad** sy'n cyd-fynd â'i **Penderfyniad** diweddaraf, nododd y Bwrdd ei gytundeb i ddileu'r gofyniad i'r Bwrdd gyhoeddi manylion ynghylch defnydd Aelodau o'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu yn ei adroddiadau blynyddol, ac yn lle hynny cyhoeddi'r manylion hyn ochr yn ochr â gwariant arall yr Aelodau ar wefan y Senedd.
- 2.6.3** Yn ystod 2021-22, defnyddiodd 22 Aelod unigol y Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu. Ar yr adeg hon roedd Aelodau unigol yn gallu hawlio hyd at uchafswm o £2,500 yr un o'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu. Hawliwyd cyfanswm o £92,273.32 am waith ymchwil allanol yn 2021-22 - cyfuniad o hawliadau gan Aelodau unigol a grwpiau gwleidyddol. Caiff grwpiau ddefnyddio unrhyw arian sy'n weddill yn eu lwfans staffio i fanteisio ar arbenigedd allanol, am gyfnod penodol, i gyflawni darn penodol o waith polisi ac ymchwil, fel y nodir yn 8.7.A yn y Penderfyniad presennol. Gweler rhagor o fanylion am ymchwil a gomisiynwyd gan Aelodau a grwpiau yn Atodiad C o'r adroddiad hwn.

2.7 Diogelwch

- 2.7.1** Ym mis Mai 2021, ystyriodd y Bwrdd y trefniadau diogelwch a ddarperir i'r Aelodau gan Gomisiwn y Senedd, a chytunodd i gael diweddariad ymhen chwe mis. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd y diweddariad hwn gan farwolaeth drasig Syr David Amess AS a risgiau diogelwch diweddar mewn perthynas â busnes y Senedd.
- 2.7.2** Yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2021, bu'r Bwrdd yn ystyried yr adolygiadau diogelwch sy'n cael eu cynnal ar gyfer Aelodau gan dîm Diogelwch y Senedd a'r camau sy'n cael eu cymryd i argymhell gwelliannau i ddiogelwch yr Aelodau a'u staff bob amser. Cytunodd y Bwrdd ymhellach bod yn rhaid neilltuo digon o arian o gronfeydd canolog y Penderfyniad i gyflawni argymhellion sy'n hanfodol ym marn tîm Diogelwch y Senedd ar gyfer swyddfeydd yr Aelodau, llety preswyl ym Mae Caerdydd a phrif gartrefi, yn amodol ar brofion cyffredinol y Penderfyniad o werth am arian a rhesymoldeb.
- 2.7.3** Cytunodd y Bwrdd i drefnu adolygiadau blynyddol o'r darpariaethau diogelwch/cymorth a ariennir gan y Penderfyniad i sicrhau eu bod yn ddigonol o hyd.
- 2.7.4** Nododd y Bwrdd ddiweddariad hefyd gan dîm TGCh y Senedd ar waith parhaus i sicrhau seiberddiogelwch yr Aelodau, a chytunodd ar faterion sy'n ymwneud â'i seiberddiogelwch ei hun fel Bwrdd.

2.8 Pensiynau

- 2.8.1** Yn sgil pasio Deddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol 2022 gan Senedd y DU, nid oes angen i'r bwrdd bellach ofyn am ganiatâd Trysorlys EM i wneud newidiadau i Reolau Cynllun Pensiwn yr Aelodau.
- 2.8.2** Trafododd y Bwrdd effaith achosion McCloud a Sargeant ar gynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus. Cafodd gyngor gan Fwrdd Ymddiriedolwyr y Cynllun a Chomisiwn y Senedd i wneud yn iawn am y gwahaniaethu a oedd yn bodoli o fewn Rheolau'r Cynllun Pensiwn. Yn dilyn ymgynghoriad pellach dros haf 2021, argymhellodd y Bwrdd newidiadau i'r rheolau i ddileu darpariaethau gwahaniaethol. Bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi gan Fwrdd Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn maes o law.

2.9 Ystyried taliadau eithriadol

- 2.9.1** Mae'r Bwrdd yn cydnabod y gallai amgylchiadau eithriadol effeithio ar Aelodau unigol, gan effeithio ar eu gallu i gyflawni eu dyletswyddau. Bydd y rhain yn aml yn gyfrinachol eu natur, a gallant godi ar fyr rybudd. Mae dyletswydd ar y Bwrdd i gefnogi'r Aelodau ym mhob agwedd ar eu rôl ac, ym marn y Bwrdd, os caiff wybod am amgylchiadau o'r fath, dylai wneud penderfyniad a oes achos o blaid darparu cymorth ariannol eithriadol. Felly, ymdrinnir â cheisiadau o'r fath mewn ffordd sensitif, gan sicrhau bod trefniadau llywodraethu priodol ar waith ar gyfer adrodd ar drafodaethau a phenderfyniadau'r Bwrdd.
- 2.9.2** Yn ystod 2021-22 cafodd y bwrdd tri chais, ac fe gymeradwyodd y rhain. Daeth y taliadau a wnaed yn ystod 2021-22 o hawliadau treuliau eithriadol parhaus a gymeradwywyd gan y Bwrdd mewn blynyddoedd blaenorol i gyfanswm o £230.00.
- 2.9.3** Mae'r Bwrdd yn adolygu'r holl daliadau lwfansau eithriadol parhaus yn flynyddol (mewn achosion pan fo'r taliadau ychwanegol yn ymestyn y tu hwnt i 12 mis). Y rheswm am hyn yw er mwyn sicrhau bod yn dal angen y cymorth a ddarperir, ac er mwyn asesu a fu unrhyw newid yn yr amgylchiadau.

2.10 Amgylchedd gwleidyddol

- 2.10.1** Yn ystod tymor yr hydref 2021 cyhoeddwyd y Cytundeb Cydweithio rhwng Llafur Cymru a Phlaid Cymru. Mae'r Cytundeb yn codi nifer o gwestiynau i'r Bwrdd, yn enwedig mewn perthynas â rôl yr Aelodau Dynodedig ac effaith y Cytundeb ar y lwfans cymorth

i bleidiau gwleidyddol. Bydd y Bwrdd yn gofyn am dystiolaeth bellach ar weithrediad y cytundeb ac unrhyw effaith ar bleidiau gwleidyddol cyn gwneud unrhyw newidiadau i'r Penderfyniad.

2.11 Datgarboneiddio

- 2.11.1** Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i chwarae ei ran i gyflawni datgarboneiddio drwy ddatblygu Penderfyniad sy'n wyrddach yn ei ffocws. Ym mis Tachwedd 2021 nododd y Bwrdd fwriad Comisiwn y Senedd i gyflwyno cynllun aberthu Cyflog ar gyfer Cerbydau Trydan ar gyfer Aelodau o'r Senedd a dywedodd y byddai'n sicrhau bod y Bwrdd yn cael gwybodaeth reolaidd ynghylch argaeledd y cynllun. Mynegodd y Bwrdd ei gefnogaeth frwd i'r cynllun, gan gyfeirio ar y pryd at ei ffocws trosfwaol ar ddatgarboneiddio o fewn ei egwyddorion arweiniol. Bydd y Bwrdd yn cadw llygad barcud ar weithrediad y cynllun hwn yn y dyfodol

Atodiad A: Aelodau'r Bwrdd

Dr Elizabeth Haywood (Cadeirydd)



Mae Elizabeth yn Gyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd profiadol. Yn flaenorol mae wedi bod yn aelod o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ac yn gadeirydd ei Bwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd, yn aelod o Fwrdd Scottish Power Energy Networks, Grŵp Hendre, Leonard Cheshire, yn aelod annibynnol o Fwrdd Taliadau Swyddfa Archwilio Cymru, ac yn Gadeirydd cyntaf CGGC Services Ltd. Hi oedd cadeirydd Tasglu Gweinidogol Llywodraeth

Cymru ar gyfer Dinas-ranbarthau hefyd.

Treuliodd ddechrau ei gyrfa yn Senedd Ewrop ac Awdurdod Datblygu Cymru, cyn cael ei phenodi'n Gyfarwyddwr CBI Cymru, yna'n Gyfarwyddwr Cyfathrebu Cymdeithas y Cwmnïau Trenau ac yna bu'n rheoli cwmni chwilio am uwch-swyddogion yng Nghaerdydd a Llundain.

Mae ganddi radd mewn economeg o Brifysgol Caerdydd, PhD a doethuriaeth er anrhydedd o Abertawe, a hi oedd enillydd cyntaf Gwobr Cymraes y Flwyddyn, ac mae'n Gymrawd Anrhydeddus ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Cafodd Elizabeth ei phenodi'n Gadeirydd Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd ym mis Medi 2020.

Michael Redhouse



Ar hyn o bryd, Michael Redhouse yw Pennaeth EMES Consulting, sef cwmni a sefydlodd yn 2002 sy'n helpu llawer o sefydliadau mawr gyda materion taliadau a buddion.

Graddiodd Michael mewn mathemateg o'r Brifysgol Agored, ac mae ei yrfa wedi cynnwys cyfnodau fel Partner yn Ernst and Young a Chyfarwyddwr Polisi Cyflogaeth yn Diageo. Mae Michael wedi bod yn Ymddiriedolwr i Ymddiriedolaeth APEX, sy'n cefnogi troseddwy'r sy'n dychwelyd i'r gwaith, ac yn Gadeirydd Ymddiriedolwyr Hosbis St Luke yn Harrow.

Roedd Michael yn Aelod o'r Corff Adolygu Athrawon Ysgol, sy'n edrych ar gyflogau, dyletswyddau proffesiynol ac amser gweithio athrawon ysgol yng Nghymru a Lloegr, ac sy'n atebol i'r Ysgrifennydd Gwladol.

Mae Michael wedi bod yn aelod o'r Bwrdd Taliadau Annibynnol ers 2015.

Y Fonesig Jane Roberts



Mae Jane yn Gymrawd Ymchwil mewn Arweinyddiaeth Gyhoeddus yn Ysgol Fusnes y Brifysgol Agored.

Rhwng 2000 a 2005, Jane oedd Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Camden yn Llundain, ac ers hynny mae wedi gwasanaethu mewn nifer o rolau anweithredol gan gynnwys Cadeirydd Comisiwn Cyngorwyr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol Llywodraeth y DU, Cadeirydd Parenting UK, aelod o fwrdd Ofsted, Cadeirydd New Local Government Network ac, ar hyn o bryd, hi yw Cadeirydd yr elusen Living Streets ac Action for Stammering Children.

Mae hefyd yn aelod o Grŵp Cyngori Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Urddwyd Jane yn DBE yn 2004. Yn broffesiynol, mae'n feddyg ac yn Seiciatrydd Ymgynghorol Plant a Phobl Ifanc er Anrhydedd â phrofiad o uwch-reoli ym maes gofal iechyd yn y GIG.

Mae Jane wedi cyhoeddi nifer o erthyglau academiaidd ym maes pediatreg, seiciatreg a gwleidyddiaeth. Golygodd 'The Politics of Attachment' (1996) ar y cyd â Sebastian Kraemer, a hi yw awdur 'Losing Political Office' (2017). Dyfarnwyd PhD iddi gan y Brifysgol Agored (2021).

Mae Jane wedi bod yn aelod o'r Bwrdd Taliadau Annibynnol ers 2015.

Hugh Widdis



Hugh yw Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol y Llywodraeth ar gyfer Gogledd Iwerddon, ac ef yw'r Cyfreithiwr Adran ar gyfer Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Mae ganddo 22 mlynedd o brofiad o weithio mewn gwasanaethau cyfreithiol seneddol a llywodraeth. Cyn ymuno â Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Hugh oedd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu ar gyfer Cynulliad Gogledd Iwerddon.

Cyn hynny, gweithiai ym maes ymchwil, fel bargyfreithiwr mewn practis preifat ac fel cyfreithiwr mewnol i gwmni blaenllaw ym maes gwasanaethau ariannol. Mae hefyd wedi gweithio yn swyddfa gyfreithiol Senedd yr Alban, ac ar gyfraith gwahaniaethu yn Swyddfa'r Prif Weinidog a'r Dirprwy Brif Weinidog. Roedd yn aelod o Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn Cynulliad Cymru (ACARAC) rhwng 2012 a 2019. Mae Hugh yn fargyfreithiwr ac yn aelod o Far Iwerddon a Bar Gogledd Iwerddon.

Cafodd Hugh ei benodi i Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd ym mis Medi 2020.

Sir David Hanson



Y Gwir Anrhydeddus Syr David Hanson oedd yr Aelod Seneddol dros etholaeth Delyn rhwng 1992 a 2019. Yn San Steffan roedd yn aelod o'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig o 1992 hyd nes iddo ymuno â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym 1996. Daeth yn Ysgrifennydd Seneddol Preifat i Brif Ysgrifennydd y Trysorlys, Alistair Darling, ym 1997 a daeth yn aelod o Lywodraeth y DU ym 1998 pan gafodd ei benodi'n Chwip Cynorthwyol y Llywodraeth.

Cafodd ei ddyrchafu ym 1999 ar ôl ei benodi'n Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn y Swyddfa Gymreig. Yn 2001 daeth yn Ysgrifennydd Seneddol Preifat i'r Prif Weinidog Tony Blair hyd at 2005. Gweithredodd fel Gweinidog Gwladol yn Swyddfa Gogledd Iwerddon o gyfnod yr etholiad cyffredinol yn 2005 hyd at 2007. Gweithredodd fel Gweinidog Gwladol yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder rhwng 2007 a 2009.

Ar 21 Chwefror 2007, cafodd ei benodiad i'r Cyfrin Gyngor ei gyhoeddi. Roedd yn Weinidog Gwladol dros Ddiogelwch, Gwrthderfysgaeth, Trosedd a Phlisma yn y Swyddfa Gartref rhwng 2009 a'r etholiad cyffredinol yn 2010. Yna, cysgododd y rôl honno, ac yn dilyn yr etholiad ar gyfer arweinyddiaeth y blaid Lafur cafodd ei benodi'n Weinidog

Cysgodol y Trysorlys. Bu David hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder a chafodd ei benodi i Bwyllgor Cuddwybodaeth a Diogelwch Senedd y DU. Bu hefyd yn cadeirio dadleuon seneddol ar ran y Llefarydd.

Cafodd David ei urddo'n farchog am wasanaeth cyhoeddus yn 2020. Cyn cael ei ethol i Senedd y DU, bu David yn gweithio ym maes manwerthu a'r sector gwirfoddol fel prif weithredwr elusen genedlaethol, ac roedd yn gynghorydd ac yn arweinydd grŵp cyngor.

Penodwyd Syr David Hanson i Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd ym mis Awst 2021.

Atodiad B: Dadansoddiad o gostau'r Bwrdd ar gyfer 2021-22

Mae'r tabl isod yn dangos costau uniongyrchol y Bwrdd Taliadau ym mlwyddyn ariannol 2021-22. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd wyth cyfarfod ffurfiol o'r Bwrdd yn ogystal â nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu ag Aelodau a staff cymorth. Oherwydd y pandemig COVID-19 parhaus, cynhaliwyd pob cyfarfod, ac eithrio un, yn rhithwir, a oedd yn lleihau hawliadau treuliau teithio a chynhaliath, tra bod llwyth gwaith uwch na'r arfer wedi arwain at fwy o hawliadau ffioedd gan aelodau'r Bwrdd. Mae'r tablau a ganlyn yn nodi ffioedd a threuliau aelodau'r Bwrdd.

Tabl 1 – Ffioedd aelodau'r Bwrdd

Swm a hawliwyd gan:	Cost					
	Dr Elizabeth Haywood	Ronnie Alexander	Michael Redhouse	Y Fonesig Jane Roberts	Hugh Widdis ¹	Syr David Hanson
Diwrnod ²	£5,009.83	£248.01	£2,402.99	£930.00		£955.20
Hanner diwrnod	£1,200.00		£206.65	£702.66		£930.00
Awr	£4,799.71	£557.92	£1,539.57	£1,633.52		£909.26
Cyfanswm	£11,009.54	£805.93	£4,149.21	£3,266.18	£0.00	£2,794.46

¹ Nid yw Hugh Widdis yn hawlio cyfradd ddyddiol am ei waith ar y Bwrdd.

² Y gyfradd ddyddiol sy'n daladwy i'r Cadeirydd yw £400.00, a'r gyfradd ddyddiol sy'n daladwy i aelodau'r Bwrdd yw £310.00.

Tabl 2 – Teithio a chynhaliaeth aelodau'r Bwrdd³

	Dr Elizabeth Haywood	Michael Redhouse	Y Fonesig Jane Roberts	Hugh Widdis	Syr David Hanson
Milltiroedd mewn car	£24.00	£3.65	£0.00	£65.95	£0.00
Tacsi/Llogi car	£0.00	£0.00	£0.00	£0.00	£7.00
Teithio mewn awyren	£0.00	£0.00	£0.00	£82.98	£0.00
Trên â'r Tiwb	£36.90	£58.70	£0.00	£24.61	£81.00
Tollau	£0.00	£0.00	£0.00	£0.00	£0.00
Treuliau eraill	£0.00	£0.00	£0.00	£00.00	£0.00
Llety	£72.00	£72.00	£0.00	£72.00	£72.00
Cynhaliaeth (arlwyo)	£102.25 ⁴	£0.00	£0.00	£0.00	£9.50
Cyfanswm	£235.15	£134.35	£0.00	£255.24	£169.50

³ Mae Tabl 2 yn dangos symiau'r hawliadau teithio a chynhaliaeth a wnaed gan aelodau'r Bwrdd yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22. Y gwir gost i Gomisiwn y Senedd yw £1,064.04 oherwydd yr angen i gyfrif i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi am dreth incwm ac Yswiriant Gwladol ar y taliadau hyn. Oherwydd pandemig COVID-19, dim ond un cyfarfod wyneb yn wyneb a gafwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22.

⁴ Roedd y swm hwn ar gyfer pryd gyda'r nos 4 Aelod ar gyfer cyfarfod mis Mawrth.

Tabl 3 - Costau ychwanegol

Marchnata a Chyhoeddusrwydd	£40.00
Cynghorwyr Annibynnol	£540.00
Ymchwil a gwerthuso	£18,640
Cyfanswm costau ychwanegol	£19,190.00

Tabl 4 - cyfanswm costau

Cyfanswm ffioedd aelodau'r bwrdd	£22, 025.32
Cyfanswm teithio a chynhaliaeth aelodau'r bwrdd	£794.24
Cyfanswm costau ychwanegol	£19,190.00
Cyfanswm y costau ar gyfer 2021/22	£42,009.56

Atodiad C: Prosiectau'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu 2021-22

Aelod o'r Senedd	Teitl y gwaith
Altaf Hussain	Asesu cwmipas incwm sylfaenol cyffredinol. Diwygio'r ddarpariaeth gwasanaethau ambiwlans
Andrew RT Davies	Rhaglen hyfforddi ar gyfer dylunio gwefannau
Cefin Campbell	Datblygu ateb yn y gymuned i effeithiau andwyol cymdeithasol perchnogaeth cartrefi gwyliau ac ail gartrefi yng Nghymru ar fforddiadwyedd cartrefi i gymunedau lleol.
Arweinydd grŵp y Ceidwadwyr	Adolygu amseroedd aros GIG Cymru
Arweinydd grŵp y Ceidwadwyr	Diwygio ardrethi annomestig yng Nghymru
Arweinydd grŵp y Ceidwadwyr	Diwygio'r Dreth Gyngor
Arweinydd grŵp y Ceidwadwyr	Cynyddu lefelau tai yng Nghymru
Delyth Jewell	Cynllun Gwyrdd ar gyfer Cymoedd De Cymru – Ôl-osod
Elin Jones	Datblygu ateb yn y gymuned i effeithiau andwyol cymdeithasol perchnogaeth cartrefi gwyliau ac ail gartrefi yng Nghymru ar fforddiadwyedd cartrefi i gymunedau lleol.
Heledd Fychan	Ymchwil i gefnogi strategaeth i helpu i liniaru tlodi tanwydd yng Nghymoedd De Cymru
James Evans	Fideo yn adrodd yn ôl ar waith a wnaed ers mis Mai 2021
Janet Finch-Saunders	Adolygiad o effaith posib treth dwristiaeth ar ddiwydiannau lletygarwch a thwristiaeth Aberconwy
Jenny Rathbone	Dadl fer ar ddwysedd maetholion bwyd
Joyce Watson	Cefnogaeth i blant a phobl Ifanc sy'n profi cam-drin domestig
Julie Morgan	Cyfathrebu ag etholwyr - Cynllun yr adroddiad blynyddol
Luke Fletcher	Ymchwil i gefnogi strategaeth i helpu i liniaru tlodi tanwydd yng Nghymoedd De Cymru
Mabon Ap Gwynfor	Polisi rheoli'r farchnad dai
Mick Antoniw	Cyfleu'r ddadl dros fuddsoddi mewn gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus rheilffordd/bws cyflym yn etholaethau Gorllewin Caerdydd a Phontypridd
Natasha Asghar	Cynllun (a chynllunio) cyfathrebu cyfryngau cymdeithasol 2022

Peredur Owen Griffiths	Cynllun Gwyrdd ar gyfer Cymoedd De Cymru – Ôl-osod
Arweinydd grŵp Plaid Cymru	Cyfieithu Cytundeb Seneddol ac ymchwil academiaidd cysylltiedig
Arweinydd grŵp Plaid Cymru	Cyfieithu Cytundeb Seneddol ac ymchwil academiaidd cysylltiedig
Rhys ab Owen	Archwiliad beirniadol o'r opsiynau strategol a gyflwynwyd yng nghynllun datblygu lleol newydd Caerdydd
Russell George	Cylchlythyr electronig
Russell George	Cylchlythyr electronig
Russell George	Cylchlythyr electronig
Russell George	Cylchlythyr electronig
Russell George	Cylchlythyr electronig
Russell George	Cylchlythyr electronig
Russell George	Cylchlythyr electronig
Russell George	Cylchlythyr electronig
Russell George	Cylchlythyr electronig
Russell George	Lluniau o Russell George yn cyflawni ei ddyletswyddau fel Aelod o'r Senedd
Russell George	Templedi hyfforddiant a datganiadau i'r wasg
Sarah Murphy	Fideograffydd ar gyfer digwyddiad Dragon's Den Adfywio Porthcawl
Sarah Murphy	Llwybr iechyd meddwl Pen-y-bont ar Ogwr
Sarah Murphy	Cynllun yr Adroddiad Blynyddol
Sarah Murphy	Llwybr iechyd meddwl Pen-y-bont ar Ogwr
Sioned Williams	Ymchwil i gefnogi strategaeth i helpu i liniaru tlodi tanwydd yng Nghymoedd De Cymru
Sioned Williams	Fideo gwybodaeth
Tom Giffard	Prosiect Ymchwil Polisi Tai a Chynllunio